



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2002 Rhif 2480 (Cy.243)**

**2002 No. 2480 (W.243)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**ANIMALS, WALES**

**IECHYD ANIFEILIAID**

**ANIMAL HEALTH**

Gorchymyn Rheoli Clefydau  
(Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2)  
(Diwygio) 2002

The Disease Control (Interim  
Measures) (Wales) (No.2)  
(Amendment) Order 2002

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note is not part of the Order)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002 (O.S. 2002/2304 (Cy. 229)) (y "prif Orchymyn").

This Order amends the Disease Control (Interim Measures) (Wales) (No.2) Order 2002 (S.I. 2002/2304 (W. 229)) (the "principal Order").

Y prif ddiwygiadau yw-

The principal amendments are-

- (a) dileu erthygl 5 o'r prif Orchymyn sy'n darparu y bydd yn anghyfreithlon yn gyffredinol i hela rhywogaethau penodol â chwn ac eithrio o dan awdurdod caniatâd a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol; a
- (b) amnewid erthygl 3(3)(dd) er mwyn darparu na fydd symudiadau hyrddod i unrhyw safle yn arwain at ofyniad segura yno (fel y cyfeirir ato yn erthygl 3(1)(b) o'r prif Orchymyn) ar yr amod bod yr hwrdd yn cael ei ddychwelyd i'r safle hwnnw o le y cafodd ei symud iddo at ddibenion bridio a'i fod yn cael ei ynysu oddi wrth anifeiliaid eraill am 20 diwrnod ar ôl dyddiad ei ddychweliad.

- (a) the deletion of article 5 of the principal Order which provides that it shall generally be unlawful to hunt certain species with dogs save under the authority of a permit issued by a veterinary inspector; and
- (b) the replacement of article 3(3)(f) so as to provide for movements of rams onto any premises not to give rise to a standstill requirement there (as referred to in article 3(1)(b) of the principal Order) provided that the ram is being returned to those premises from a place to which it was moved for breeding purposes and that it is isolated from other animals for 20 days after the date of its return.

Nid oes arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn.

A regulatory appraisal has not been prepared for this Order.

**2002 Rhif 2480 (Cy.243)****2002 No. 2480 (W.243)****ANIFEILIAID, CYMRU****ANIMALS, WALES****IECHYD ANIFEILIAID****ANIMAL HEALTH****Gorchymyn Rheoli Clefydau  
(Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif  
2) (Diwygio) 2002****The Disease Control (Interim  
Measures) (Wales) (No.2)  
(Amendment) Order 2002***Wedi'i wneud**28 Medi 2002**Made**28th September 2002**Yn dod i rym**30 Medi 2002**Coming into force**30th September 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, sy'n gweithredu ar y cyd wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt o dan adrannau 1 ac 8(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(a), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

The National Assembly for Wales and the Secretary of State, acting jointly in exercise of the powers conferred on them under sections 1 and 8(1) of the Animal Health Act 1981(a), make the following Order:

**Teitl, cymhwyso a chychwyn****Title, application and commencement**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2002; mae'n gymwys i Gymru a daw i rym ar 30 Medi 2002.

1. This Order may be cited as the Disease Control (Interim Measures) (Wales) (No.2) (Amendment) Order 2002; it applies to Wales and shall come into force on 30th September 2002.

**Diwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau  
Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002****Amendment of the Disease Control (Interim  
Measures) (Wales) (No.2) Order 2002**

2.-(1) Diwygir Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002(b) yn unol â darpariaethau canlynol yr erthygl hon.

2.-(1) The Disease Control (Interim Measures) (Wales) (No.2) Order 2002(b) shall be amended in accordance with the following provisions of this article.

(2) Yn erthygl 2, dilëir y diffiniad o "hela" ("hunting").

(2) In article 2, the definition of "hunting" shall be deleted.

(a) 1981 p.22. *Gweler* adran 86(1) i gael y diffiniadau o "the Ministers" a "the Minister". Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers", i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers", i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban mewn perthynas â Chymru, i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Trosglwyddwyd ymhellach swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd wedi hynny i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

(a) 1981 c.22. *See* section 86(1) for the definitions of "the Ministers" and "the Minister". Functions of "the Ministers", so far as exercisable by the Secretary of State for Wales in relation to Wales were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672); functions of "the Ministers", so far as exercisable by the Secretary of State for Scotland in relation to Wales, were transferred to the Minister of Agriculture, Fisheries and Food by the Transfer of Functions (Agriculture and Food) Order 1999 (S.I. 1999/3141). The functions of the Minister of Agriculture, Fisheries and food were then further transferred to the Secretary of State by the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food (Dissolution) Order 2002 (S.I. 2002/794).

(b) O.S. 2002/ 2304 (Cy. 229)

(b) S.I. 2002/ 2304 (W. 229).

(3) Yn lle erthygl 3(3)(dd), rhoddir y canlynol-

"(dd) hwrdd neu afr o'r naill ryw neu'r llall, sef anifail sy'n cael ei ddychwelyd i'r safle hwnnw o le yr oedd wedi'i symud iddo at ddibenion bridio ar yr amod ei fod yn cael ei ynysu oddi wrth bob anifail arall sydd yno am 20 diwrnod ar ôl dyddiad ei ddychweliad oni bai, yn achos gafr, ei bod yn cael ei hanfon yn ôl i'r lle hwnnw ar gyfer ymgais pellach i fridio, a'r afr honno wedi cael ei hynysu felly ers dyddiad ei dychwelyd;"

(4) Yn erthygl 3 (10), yn lle'r geiriau "arolygydd milfeddygol" rhoddir "arolygydd".

(5) Yn lle erthygl 3(11), rhoddir y canlynol-

"(11) Caiff hysbysiad a ddyroddwyd o dan baragraff (10) gael ei amrywio neu ei ddirymu ar unrhyw bryd drwy hysbysiad ysgrifenedig pellach a ddyroddir gan-

- (a) arolygydd milfeddygol, os cafodd yr hysbysiad sydd i'w amrywio neu ei ddirymu ei ddyroddi gan arolygydd milfeddygol; neu
- (b) arolygydd milfeddygol neu unrhyw arolygydd arall, os cafodd yr hysbysiad sydd i'w amrywio neu i'w ddirymu ei ddyroddi gan arolygydd ac eithrio arolygydd milfeddygol.

(11A) Rhaid cyflwyno hysbysiad a ddyroddwyd o dan baragraff (11) i'r personau y cyflwynwyd yr hysbysiad y mae'n ei amrywio neu'n ei ddirymu iddynt."

(6) Yn lle erthygl 4(b), rhoddir y canlynol-

"(b) dderbyn o ladd-dy

- (i) unrhyw fochyn, neu
- (ii) unrhyw anifail arall ac eithrio o dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol."

(7) Dilëir erthygl 5.

(8) Yn erthygl 6(3) dilëir y geiriau "neu 5(2)(b)".

(9) Yn lle'r geiriau "er mwyn gwneud dau neu ragor o safleoedd yn" yn erthygl 6(4), rhoddir "mewn perthynas â".

(10) Yn erthygl 9(1), yn lle "bydd y swyddog neu'r arolygydd yn peri" rhoddir "caiff y swyddog neu'r arolygydd beri".

(3) For article 3(3)(f), there shall be substituted the following -

"(f) a ram or a goat of either sex which is being returned to those premises from a place to which it had been moved for breeding purposes provided it is isolated from all other animals there for 20 days after the date of its return unless, in the case of a goat, it is sent back to that place for a further attempt at breeding having been so isolated since the date of its return;"

(4) In article 3 (10), for the words "a veterinary inspector" there shall be substituted "an inspector".

(5) For article 3(11), there shall be substituted the following-

"(11) A notice issued under paragraph (10) may be varied or revoked at any time by a further notice in writing issued by -

- (a) a veterinary inspector, if the notice to be varied or revoked was issued by a veterinary inspector; or
- (b) a veterinary or any other inspector, if the notice to be varied or revoked was issued by an inspector other than a veterinary inspector.

(11A) A notice issued under paragraph (11) shall be served on the persons on whom the notice which it varies or revokes was served."

(6) For article 4(b), there shall be substituted the following -

"(b) receive from a slaughterhouse

- (i) any pig, or
- (ii) any other animal unless under the authority of a licence issued by a veterinary inspector."

(7) Article 5 shall be deleted.

(8) In article 6(3) the words "or 5(2)(b)" shall be deleted.

(9) For the words "for the purpose of making two or more premises" in article 6(4), substitute "in relation to".

(10) In article 9(1) for the word "will" after "inspector", there shall be substituted the word "may".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar:

Signed on behalf of the National Assembly for Wales on:

27 Medi 2002

27th September 2002

*J.E. Randerson*

Y Gweinidog Dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

Minister for Culture, Sport and the Welsh Language

Llofnodwyd ar:

Signed on:

28 Medi 2002

28th September 2002

*Whitty*

Is-ysgrifennydd Gwladol,  
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Parliamentary Under Secretary of State  
Department for Environment, Food and Rural Affairs

©© Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£1.75**

W160/10/02

ON

ISBN 0-11-090575-X



9 780110 905754